Y Comisiwn Gwasanaethau Post

Adroddiad Blynyddol 2002-2003

POSTCOMM

Ar 1 Ionawr 2003, am y tro cyntaf ers ei sefydlu 368 mlynedd yn ôl, agorwyd rhan o fusnes llythyrau Post Brenhinol i gystadleuaeth.

Y Comisiwn Gwasanaethau Post

Adroddiad Blynyddol 2002-2003

At: Y Gwir Anrhydeddus Patricia Hewitt AS, Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant

Amgaeaf adroddiad y Comisiwn ar gyfer y 12 mis yn diweddu 31 Mawrth 2003 fel sy'n ofynnol o dan Adran 45 Deddf Gwasanaethau Post 2000.

Graham Corbett CBE
Cadeirydd, Y Comisiwn Gwasanaethau Post

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Adran 45
Deddf Gwasanaethau Post 2000

POSTCOMM

Postal Services Commission,
Hercules House, 6 Hercules Road, London SE1 7DB
www.postcomm.gov.uk

Ynglŷn â Postcomm

Corff rheoleiddio annibynnol yw Postcomm - y Comisiwn Gwasanaethau Post.
Fe'i sefydlwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Post 2000 i sicrhau bod gweithredwyr y gwasanaeth post, yn cynnwys Post Brenhinol, yn diwallu anghenion eu cwsmeriaid ym mhob rhan o'r DU, yn anad dim drwy sicrhau bod gwasanaeth post cyffredinol ar waith.

Caiff ein polisïau eu llywio gan fwrdd o saith comisiynydd, o dan arweiniad y cadeirydd, Graham Corbett. Rhyngddynt, mae comisiynwyr Postcomm yn meddu ar brofiad o gystadleuaeth, busnes, economeg, materion yn ymwneud â defnyddwyr, materion rhanbarthol, undebau llafur a rheoleiddio.

Gweledigaeth Postcomm yw ystod o wasanaethau post dibynadwy, arloesol ac effeithlon, yn cynnwys gwasanaeth post cyffredinol, a gaiff eu gwerthfawrogi gan gwsmeriaid ac a gaiff eu darparu drwy farchnad bost gystadleuol.

Wrth geisio cyflawni'r weledigaeth hon, mae Postcomm wedi ei gwneud yn ofynnol i Post Brenhinol ddarparu gwasanaeth post cyffredinol, wedi cyflwyno cystadleuaeth ac wedi trwyddedu nifer o gwmnïau i gystadlu â Post Brenhinol. Oherwydd bod gan Post Brenhinol fonopoli fwy neu lai dros y farchnad postio llythyrau, mae Postcomm hefyd yn rheoleiddio'r prisiau y gall eu codi ac ansawdd ei wasanaeth. Mae hyn yn atal y cwmni rhag manteisio'n annheg ar ei sefyllfa. Nodir manylion y rheolaethau pris diweddaraf yn yr adroddiad hwn.

Mae'r llywodraeth hefyd wedi gofyn i Postcomm fonitro a rhoi cyngor ar rwydwaith Swyddfa'r Post. Gwna hyn drwy gyflwyno adroddiadau blynyddol i'r Adran Masnach a Diwydiant.

Cynnwys

Datganiad y Cadeirydd	2
Comisiynwyr	6
Adroddiad y prif weithredwr	8
Gweithrediadau	27
Trwyddedau a ddyfarnwyd gan Postcomm	33
Cyhoeddiadau Postcomm	36
Gofynion statudol o ran cyflwyno adroddiadau o dan adran 45(2) Deddf Gwasanaethau Post 2000	40

Datganiad y Cadeirydd

Dyma fy nhrydydd adroddiad fel cadeirydd, a'r olaf, gan y bydd fy olynydd yn ei swydd erbyn yr adeg hon y flwyddyn nesaf.

Felly gobeithio y caniatewch i mi edrych yn ôl rywfaint. Pan ddechreuais yn fwy swydd ym mis Mawrth 2000 fy nod oedd defnyddio fy nghyfnod o dair blynedd i sefydlu fframwaith marchnad gystadleuol a oedd yn gyson â'r cyfyngiadau a osodwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Post 2000, yn arbennig y rheini a oedd yn ymwneud â goruchafiaeth y gwasanaeth cyffredinol.

Ers hynny, rydym wedi:

- Cyhoeddi trwydded gyntaf Post Brenhinol
- Ymchwilio i oblygiadau ariannol a gweithredol cadw'r gwasanaeth cyffredinol fel y'i diffinnir ar hyn o bryd gan Post Brenhinol
- Ymchwilio i'r strategaeth a'r amserlen ar gyfer agor y farchnad, eu creu a'u gweithredu, gyda dyddiad terfyn o fis Mawrth 2007
- Dyfarnu naw trwydded interim a dwy drwydded hir dymor
- Ymchwilio i gyfundrefn rheoli prisiau Post Brenhinol tan 2006 a'i gweithredu
- Gosod y sylfeini ar gyfer y cynllun iawndal gorfodol cyntaf ar gyfer achosion o oedi wrth ddosbarthu'r post
- Cyhoeddi ein Cyfarwyddwyd arfaethedig ar brisio mynediad, gan osod y sylfeini ar gyfer creu cod mynediad
- Lansio archwiliad mawr o resymeg a diwyg gwasanaeth cyffredinol
- Darparu cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant ar y ffordd orau i weithredu'r newidiadau diweddar i'r Gyfarwyddeb Ewropeaidd ar wasanaethau post
- Datrys amrywiaeth o faterion eilaidd fel eithriadau daearyddol i'r gofyniad dosbarthu dyddiol, cod ymarfer ar gyfer newidiadau cod post, cyfundrefn cosbau ariannol a chod ymarfer ar sut y gwnawn ein gwaith
- Darparu sylwadau ystyrlon yn seiliedig ar ymchwil ar ddyfodol rhwydweithiau gwledig a threfol Swyddfa'r Post.

O gofio natur sensitif y rhan fwyaf o'r materion hyn - a'r annhebygrwydd y bydd y rhan fwyaf o'r prif gyfranogwyr am ganu ein clodydd - nid oes gennyf unrhyw gywilydd o fod am nodi'r amrywiaeth eithriadol hwn o gyflawniadau a chydnabod ymrwymiad y staff a'r comisiynwyr a fu wrthi'n eu gweithredu.

Ni ddigwyddodd unrhyw rai o'r cyflawniadau hyn ar eu pen eu hunain. Mae rhannau sylweddol o adroddiad blynyddol eleni yn adolygu'r hyn a ddigwyddodd o fewn y farchnad bost ehangach yn ystod yr un cyfnod amser hwn o dair blynedd. Nid ydym yn honni mai ni yw'r unig asiant newid neu hyd yn oed y prif asiant newid ac yn benodol, ni fyddai'r cyntaf i gydnabod y gwaith a wnaed gan staff Post Brenhinol ar bob lefel o'r cadeirydd ar y brig i'r staff ar y bôn. Ond credwn yn gryf ein bod wedi chwarae rhan gadarnhaol ac weithiau gatalytig yn y datblygiadau tuag at y datganiad o weledigaeth sy'n cyfarch ymwelwyr i'n swyddfeydd sef *ystod o wasanaethau post dibynadwy, arloesol ac effeithlon, yn cynnwys gwasanaeth post cyffredinol, a gaiff eu gwerthfawrogi gan gwsmeriaid ac a gaiff eu darparu drwy farchnad bost gystadleuol.*

> "…credwn yn gryf ein bod wedi chwarae rhan gadarnhaol ac weithiau gatalytig…"

Ar nodyn personol, roeddwn yn falch bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi cytuno i'm hawgrym o estyniad o flwyddyn i'm contract er mwyn gallu cwblhau'r broses o osod sylfeini i raddau helaeth. Bydd fy olynydd yn cymryd yr awenau wrth i Postcomm ddechrau ar y dasg bwysig o weithredu a monitro'r newidiadau a roddwyd ar waith gennym.

Rwyf yn falch iawn y bydd Janet Lewis-Jones yn ei swydd am dair blynedd arall, felly bydd newid ar lefel y comisiwn yn ystod y flwyddyn nesaf wedi'i gyfyngu i ddyfodiad cadeirydd newydd ac un aelod arall gyda phrofiad o'r diwydiant post. Yn ddiweddarach yn 2004, daw cyfnodau contract cychwynnol Tony Cooper a Ken Olisa i ben felly hefyd Julia Kaufmann a Robin Aaronson y flwyddyn ganlynol. Mae pob un ohonynt, ochr yn ochr â Martin Stanley fel ein prif weithredwr, wedi chwarae rhan amhrisiadwy wrth lunio ein polisïau yn ystod y tair blynedd ddwys hyn. Fel cadeirydd mwynheais eu cyfeillgarwch, eu cefnogaeth a'u beirniadaeth finiog. Rhyngom, llwyddom i sefydlu'r strwythurau ar gyfer comisiwn gwirioneddol golegol, a chawsom foddhad o'u gweld yn gweithio mewn amodau a fu weithiau'n anodd iawn.

Ni ddaeth yr un ohonom i Postcomm gan ddychmygu y byddai ein tasg yn syml. Mae'r penderfyniadau y disgwylir i ni eu gwneud yn anochel yn ddadleuol iawn, yn wleidyddol ac yn gymdeithasol. Mae gofynion tegwch a bod yn ddiduedd yn gosod baich trwm ar ein dadansoddiad cychwynnol yn ogystal ag ar ein seilwaith ymgynghorol. Mae angen gwahanu pryderon y prif gyfranogwyr yn ofalus i theatr a sylwedd er mwyn sicrhau na roddir gormod o bwys i'r theatr ac y rhoddir digon o bwys ar y sylwedd. Yn y cyfamser croesawn ddiddordeb agos AS, pwyllgorau dethol, awdurdodau lleol a grwpiau diddordeb arbennig fel tystiolaeth ein bod yn wir yn cyflwyno newid tra'n darparu mewnbwn pwysig i'n trafodaethau. Nid yw ein tasg yn un sy'n ennill ffrindiau, ond hoffwn deimlo ei bod yn haeddu parch, er bod pobl weithiau yn amharod i gyfaddef hynny.

Bydd y flwyddyn nesaf yr un mor bwysig â'r tair blynedd diwethaf o ran gosod sylfeini, wrth i ni anelu at roi cyfundrefn fynediad ar waith ar gyfer UK Mail a denu eraill i ddilyn yr un gyfundrefn. Ni ddylai fod unrhyw amheuaeth y bydd cyfyngiadau difrifol wrth agor y farchnad oni sefydlir strwythur ymarferol ar gyfer mynediad ar i lawr. Ac mae'n rhaid i strwythur ymarferol olygu strwythur sy'n darparu cyfleoedd masnachol i Post Brenhinol ac i gystadleuwyr newydd. Felly mae gwaith pwysig i'w wneud o hyd.

Yn hyn oll, rhaid i mi gloi drwy nodi fy ngwerthfawrogiad i'n staff ni ein hunain. Maent wedi gweithio'n ddiflino i gyrraedd ein sefyllfa gyfredol. Bu eu cyflwyniadau i gyfarfodydd y comisiwn yn ardderchog, felly hefyd eu dadansoddiadau o lwybrau gweithredu amgen. Bu'n bleser ac yn fraint cydweithio â hwy.



Graham Corbett

Comisiynwyr

Mae saith comisiynydd Postcomm yn gyfrifol ar y cyd am sefydlu'r fframwaith polisi ar gyfer swyddogaethau rheoleiddiol ac ymgynghorol Postcomm. Maent yn cyfarfod o leiaf unwaith y mis ac yn cymeradwyo pob dogfen ymgynghori a phenderfynu arwyddocaol ac adroddiadau a gyhoeddir.

Maent hefyd yn cymeradwyo cynllun busnes Postcomm ac yn monitro perfformiad yn erbyn amcanion y cynllun busnes. Dirprwyir materion gweithredol o ddydd i ddydd i'r prif weithredwr a staff Postcomm. Y comisiynwyr yw:

1 **Graham Corbett CBE** Penodwyd yn gadeirydd Postcomm ym mis Mawrth 2000; bu'n ddirprwy gadeirydd y Comisiwn Cystadleuaeth ac yn brif swyddog ariannol a chyfarwyddwr prif fwrdd Eurotunnel cyn hynny.

2 **Robin Aaronson**, cyfarwyddwr cyswllt LECG Ltd, cwmni o ymgynghorwyr economaidd a busnes. Cyn aelod o Gyngor Cenedlaethol Defnyddwyr Swyddfa'r Post a chyn bartner yn PricewaterhouseCoopers.

3 **Tony Cooper**, cadeirydd Cymdeithas y Diwydiant Niwclear, a chyfarwyddwr anweithredol Bwrdd Strategaeth yr Adran Masnach a Diwydiant. Comisiynydd Coedwigaeth anweithredol ac aelod o bwyllgor archwilio'r Comisiwn Coedwigaeth. Cyn gyd-ysgrifennydd cyffredinol Prospect, yr undeb ar gyfer peirianwyr, gwyddonwyr, rheolwyr, gweithwyr proffesiynol ac arbenigwyr, a chyn aelod o Gyngor Cyffredinol Cyngres yr Undebau Llafur.

4 **Julia Kaufmann OBE**, ymgynghorydd rheoli yn y sector gwirfoddol, bu'n gyfarwyddwraig apêl Plant Mewn Angen y BBC, ac yn gyfarwyddwraig Gingerbread, y sefydliad ar gyfer teuluoedd un rhiant.

5 **Janet Lewis-Jones**, aelod o'r Awdurdod Rheilffordd Strategol a Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain, is-lywydd Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain.

6 **Ken Olisa**, sylfaenydd, cadeirydd a phrif weithredwr Interregnum plc, tŷ buddsoddi ac ymgynghori TG. Mae hefyd yn gyfarwyddwr ac aelod o fwrdd sawl cwmni rhyngwladol; cadeirydd Thames Reach Bondway, elusen sy'n gweithio i roi lloches i bobl ddigartref yn Llundain a'u hailgartrefu; un o lywodraethwyr Peabody; rhyddfreiniwr Dinas Llundain; a lifreiwr Cwmni Anrhydeddus y Technolegwyr Gwybodaeth.

7 **Martin Stanley**, prif weithredwr Postcomm. Bu'n gyfarwyddwr Uned Effaith Rheoleiddio'r llywodraeth yn Swyddfa'r Cabinet cyn hynny.

Adroddiad y prif weithredwr

Dyma ein trydydd adroddiad blynyddol, ac rydym o'r farn y dylem ddechrau cyflwyno adroddiad ar y newidiadau yn y farchnad bost, gan gynnwys newidiadau o ran prisiau postio, ansawdd y gwasanaeth, a phroffidioldeb ac effeithlonrwydd Post Brenhinol[1]. Felly mae'r adroddiad hwn yn cynnwys llawer mwy o wybodaeth ystadegol na'r adroddiadau blaenorol, yn bennaf ar ffurf siartiau. Gobeithio y bydd hyn yn ddefnyddiol i chi, ond byddem yn croesawu eich sylwadau er mwyn i ni allu gwella ein hadroddiadau ymhellach yn y dyfodol.

Y pedair her allweddol

Ar ôl cyfnod ymsefydlu byr, crëwyd Postcomm yn ffurfiol ym mis Tachwedd 2000. Roedd yn wynebu pedair prif her wrth gyflawni'r dyletswyddau a nodwyd yn Neddf Gwasanaethau Post 2000.

Ein her gyntaf oedd llunio trwydded ddrafft gyntaf Post Brenhinol, gan gynnwys rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol, rhewi prisiau a darpariaethau a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwmni ganiatáu i weithredwyr eraill ddefnyddio ei gyfleusterau dosbarthu. Cyflwynwyd adroddiad ar y gwaith hwn a gwaith arall yn ein hadroddiad hyd at fis Mawrth 2001.

[1] Yn ystod y flwyddyn newidiodd y cwmni ei enw o Consignia i Post Brenhinol. Er mwyn osgoi dryswch, cyfeiriwn at y cwmni fel Post Brenhinol drwy gydol prif destun yr adroddiad hwn.

Bu'r heriau dilynol a wynebwyd gan Postcomm yn seiliedig ar sefydlu sylfeini craidd y gyfundrefn reoleiddio newydd. Yn arbennig, mae'n ofynnol i Postcomm weithredu i sicrhau gwasanaeth cyffredinol, hyrwyddo cystadleuaeth o ran gwasanaethau post yn y DU a sicrhau bod Post Brenhinol yn gweithredu mor effeithiol â phosibl o fewn amgylchedd cystadleuol newydd o'r fath.

Ein hail her, felly, oedd penderfynu i ba raddau ac ar ba gyflymder y dylid cyflwyno cystadleuaeth i farchnad bost y DU. Canfuom nad oedd cyflwyno cystadleuaeth yn debygol iawn o gael effaith andwyol ar y gwasanaeth cyffredinol. Yn arbennig, rydym o'r farn:

- bod y gwasanaeth cyffredinol yn fwy o fantais gystadleuol na baich i Post Brenhinol

- bod y gwasanaeth cyffredinol yn gymaint o wasanaeth i bobl sy'n anfon post ag i'r rhai sy'n ei dderbyn. Pum cant o gwsmeriaid mawr sy'n postio 50% o'r holl bost ac mae angen i'w post gyrraedd pob cwr o'r DU

- nid oedd y monopoli o reidrwydd yn gweithio er budd cwsmeriaid. Y rheswm dros hyn oedd nad oedd Post Brenhinol, yn absenoldeb cystadleuaeth, yn cymryd y penderfyniadau angenrheidiol i wella effeithlonrwydd a chyflwyno arloesedd er budd cwsmeriaid, a

- bod angen cystadleuaeth hefyd i ryddhau'r farchnad er mwyn rhoi cyfle i weithredwyr a gwasanaethau newydd ddatblygu er mwyn bodloni anghenion cyfnewidiol cwsmeriaid.

Darparodd ein hadroddiad hyd at fis Mawrth 2002 grynodeb o'n cynlluniau, gan ddechrau ym mis Ionawr 2003 gyda chystadleuaeth ar gyfer post crynswth (4,000 neu fwy o eitemau tebyg ar yr un pryd) ac ar gyfer gwasanaethau cydgyfnerthu, a diweddu gyda rhyddfrydoli llawn ym mis Ebrill 2007. Mynegodd Post Brenhinol bryder difrifol y gallai golli cyfran sylweddol o'r farchnad i gystadleuwyr. Ni ddigwyddodd hynny hyd yma. Mae'r siart canlynol yn cymharu cyfran wirioneddol Post Brenhinol o'r farchnad â'r rhagolygon yng nghynllun strategol y cwmni ar gyfer 2002. Ar ddiwedd mis Mawrth 2003, roedd gan Post Brenhinol tua 99.7% o'r farchnad llythyrau o hyd.

Cyfran Post Brenhinol o farchnad llythyrau'r DU, % yn ol cyfrain



RM's forecast = Rhagolwg Post Brenhinol
Actual = Gwirioneddol

Am nad yw cystadleuaeth yn gwbl effeithiol eto, mae angen i Postcomm sicrhau y caiff cwsmeriaid eu diogelu rhag prisiau gormodol neu safonau gwasanaeth is. Felly, ein trydedd her oedd setlo cyfundrefn rheoli prisiau ac ansawdd gwasanaeth hir dymor Post Brenhinol. Cwblhawyd y gwaith hwn yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2003 a cheir adroddiad manylach arno isod.

Ein pedwaredd her fu hwyluso gweithrediad y farchnad ymhellach drwy bennu'r telerau a ddefnyddir gan Post Brenhinol i ddelio â gweithredwyr eraill wrth ddosbarthu post ar eu rhan. Ein nod yw pennu telerau sy'n cynnig cyfleoedd masnachol deniadol i'r ddwy ochr er mwyn annog buddsoddi synhwyrol mewn arloesedd a thwf y farchnad. Datblygwyd ein cynigion yn sylweddol yn ystod y flwyddyn dan sylw ac fe'u cyhoeddwyd i ymgynghori arnynt ym mis Mai 2003. Byddwn yn cyflwyno adroddiad manylach ar hyn yn ein hadroddiad hyd at fis Mawrth 2004.

Rheoli prisiau, ansawdd gwasanaeth ac iawndal

Daeth cyfres newydd o amodau yn nhrwydded Post Brenhinol sy'n llywodraethu'r broses o reoli prisiau, ansawdd gwasanaeth ac iawndal i rym ar 1 Ebrill 2003 a bwriedir iddynt fod yn weithredol tan fis Mawrth 2006.

O'u cymharu â'r tro diwethaf y rhewyd prisiau, mae'r darpariaethau newydd ar gyfer rheoli prisiau yn caniatáu £750 miliwn ychwanegol i Post Brenhinol dros gyfnod o dair blynedd. Mae'r £750m yn cynnwys tua £170m yn 2003-04, £250m yn 2004-05 a £330m yn 2005-06. Mae'r newidiadau i'r drwydded yn pennu safonau gwasanaeth mwy caeth ar gyfer dosbarthu - gan gynnwys ar gyfer post dosbarth 1af - a darpariaeth ddiwygiedig ar gyfer cynllun y gellir ei orfodi i dalu iawndal i gwsmeriaid domestig a chwsmeriaid busnes am ddosbarthu post yn hwyr.

Mae'r pecyn rheoli prisiau yn seiliedig ar y mynegai prisiau adwerthu (RPI) ac yn defnyddio'r fformiwla RPI-X cyfarwydd i reoli cynnydd mewn prisiau. Mae'n cynnwys:

- cynnydd o 3% mewn prisiau o fis Ebrill 2003
- cynnydd pellach o RPI-1% yn ystod blynyddoedd dau a thri. Gan dybio RPI o 2.5% (targed y llywodraeth), mae hyn yn golygu y gall prisiau yn 2004 a 2005 gynyddu 1.5% bob blwyddyn. O fewn y terfyn hwn bydd Post Brenhinol yn gallu cynyddu prisiau stampiau 2il ddosbarth 1c yn 2004 neu 2005, ar yr amod y bydd yn llwyddo i gydbwyso hyn â gostyngiadau mewn prisiau eraill
- ffurf 'basged tariffau' o reoli prisiau a fydd yn sicrhau bod refeniw yn symud yn unol â chostau os ceir unrhyw newid yng nghymysgedd cynnyrch Post Brenhinol tuag at gynnyrch â phrisiau uwch (neu is)
- cyfleuster lle y gall Post Brenhinol godi neu ostwng prisiau cynnyrch unigol o fewn y fasged tariffau er mwyn sicrhau bod prisiau yn unol â chostau. (Gall prisiau unigol gynyddu yn ôl RPI+1.5% heb gytundeb gennym ni, ac yn ôl canran uwch os cytunwn i hynny, ar yr amod y caiff y cynnydd ei gydbwyso gan ostyngiadau mewn prisiau eraill.)
- darpariaeth ar gyfer cynnyrch newydd dilys na fyddant yn rhan o'r broses rheoli prisiau
- tynhau safonau gwasanaeth Post Brenhinol, gan gynnwys targedau mwy caeth ar gyfer dosbarthu llythyrau dosbarth 1af, a
- darpariaeth ddiwygiedig ar gyfer cynllun y gellir ei orfodi i dalu iawndal i gwsmeriaid domestig a chwsmeriaid busnes am ddosbarthu post yn hwyr.

Dengys y siart ganlynol effaith gronedig debygol y rhewiad prisiau cychwynnol a'r rheolaeth prisiau newydd yn ystod y cyfnod hyd at fis Mawrth 2006, mewn termau gwirioneddol, h.y. ar ôl didynnu chwyddiant.



Pris/eitem, wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant, 00-01=100

…bu'r gyfundrefn drwyddedu flaenorol, ynghyd â'r broses o gyflwyno cystadleuaeth, yn sbardun i Post Brenhinol anelu'n uwch, ac eisoes gwelwyd gwelliant ym mherfformiad y cwmni.

Fel y nodwyd uchod, o 2003, caniateir i Post Brenhinol gynyddu prisiau unigol ar yr amod y gostyngir prisiau eraill ganddo i gydbwyso hyn. Mae'n debygol mai cwsmeriaid sy'n anfon post crynswth fydd yn elwa fwyaf ar brisiau is, ond bydd terfynau prisiau unigol yn sicrhau bod y tariff postio cyhoeddus yn parhau yn fforddiadwy. Dengys y siart ganlynol sut y mae pris gwirioneddol cam pwysau cyntaf post dosbarth cyntaf ac ail ddosbarth yn debygol o newid, os tybir y bydd Post Brenhinol yn cynyddu'r prisiau hyn i'r uchafswm posibl; serch hynny, ni fydd prisiau wedi cynyddu mewn termau gwirioneddol rhwng 2001 a 2006.



Pris llythryrau 60g dosbarth 1af ac 2il ddosbarth wedi'I addasu yn unol
A chwyddiant (Mawrth 2001=100)

Key: Mar- = Maw-; Jul- =Gor- ; Nov- =Tach-; 2^{nd}=2il 1st = 1af

Wrth gwrs, mae'n rhy gynnar i weld effaith y darpariaethau trwyddedu newydd ar ansawdd gwasanaeth Post Brenhinol, ond bu'r gyfundrefn drwyddedu flaenorol, ynghyd â'r broses o gyflwyno cystadleuaeth, yn sicr yn sbardun i Post Brenhinol anelu'n uwch, a hyd yn oed yn ystod y cam cynnar hwn, gwelwyd gwelliant ym mherfformiad y cwmni.



% dosbarth 1af yn cyrraedd y diwrnod canlynol

Key: stamped & metered = wedi'u stampio a'u mesur

Ond mewn sawl ardal roedd y gwelliant yn anghyson, ac nid oedd yn ddigon da. Ar 12 Awst 2002, ysgrifennodd Postcomm at Post Brenhinol yn mynegi pryder o ran methiant y cwmni i fodloni safonau gwasanaeth pwysig ar gyfer 2001-02, gan nodi y byddai'n adolygu digonolrwydd cynllun gweithredu Post Brenhinol ar gyfer 2002-03 ar gyfer gwella ansawdd ei wasanaeth. Wedyn, ar 23 Rhagfyr 2002, cyflwynodd Postcomm orchymyn gorfodi yn ei gwneud yn ofynnol i Post Brenhinol wella dau wasanaeth post i fusnesau - Nod Cost Postio wedi'i Dalu (PPI) Dosbarth 1af a Gwasanaeth Ymateb Dosbarth 1af. Roedd y gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i Post Brenhinol gymryd camau penodol i wella'r gwasanaethau, darparu tystiolaeth ei fod yn gwneud hynny a chyflwyno adroddiadau misol ar gynnydd.

Er gwaethaf y camau a gymerwyd gan Post Brenhinol i gydymffurfio â'r gorchymyn gorfodi, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf methodd â chyflawni'r targedau ar gyfer y cynnyrch hynny, yn ogystal â phob un ond tri o'r targedau ansawdd a oedd yn weddill. Mae Postcomm yn cydnabod bod perfformiad Post Brenhinol wedi gwella mewn sawl maes cynnyrch, ond mae rhai wedi gwaethygu, ac mae'n amlwg nad yw'r ymdrechion a wnaed gan Post Brenhinol i gyflawni'r targedau uwch y cytunodd arnynt wedi cyflawni'r gwelliannau a addawyd.

Mae hyn yn peri pryder sylweddol, gan ei bod yn hanfodol i ffocws Post Brenhinol barhau ar ei gwsmeriaid, a pheidio â cholli golwg ar ansawdd y gwasanaeth yn ei ymdrechion i weithredu ei gynllun adfer. Bydd yn rhaid i Postcomm ystyried sut i ymateb i'r canlyniadau hyn yn ofalus, gan gynnwys y posibilrwydd y rhoddir camau gorfodi pellach ar waith neu y gosodir cosb ariannol.

Pe bai'r cynllun iawndal post crynswth arfaethedig, a ddylai fod wedi bod yn weithredol eleni, wedi bod ar waith y llynedd, byddai methiant Post Brenhinol yn erbyn ei dargedau ansawdd wedi arwain at daliadau iawndal o tua £30m. Bwriad Postcomm yw i'r cynllun (a darpariaeth debyg yn y rheolaeth prisiau mewn perthynas â'r prif gynnyrch nad ydynt yn gynnyrch crynswth) weithredu fel cymhelliant effeithiol i Post Brenhinol gyflawni ei ymrwymiadau o ran ansawdd gwasanaeth yn y dyfodol.

Effeithiau cystadleuaeth

Bwriad cyflwyno cystadleuaeth yw gwella ac adfywio'r farchnad bostio, a sicrhau bod post yn gyfrwng cynyddol ddeniadol o gyfathrebu, yn arbennig i ddefnyddwyr busnes sy'n postio 86% o'r holl bost. Y gobaith yw y byddai'r effaith hon yn gwrthbwyso cystadleuaeth gan gyfryngau eraill gan gynnwys ebost a'r rhyngrwyd. Fel y nodwyd uchod, mae pris gwirioneddol anfon post wedi gostwng, ac mae ansawdd y gwasanaeth wedi gwella. O ganlyniad, mae cyfanswm yr eitemau a anfonir drwy'r post yn parhau i gynyddu, er gwaethaf cystadleuaeth gryf gan gyfryngau eraill a marchnad hysbysebu wan iawn.

Yn ogystal mae'r posibilrwydd o gystadleuaeth wedi annog Post Brenhinol i ddod yn fwy effeithlon. Mae'r siart ganlynol yn crynhoi'r tueddiadau yng nghostau Post Brenhinol fesul eitem, wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant.



Cost/eitem, wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant, 00-01=100

Er mwyn hwyluso cymariaethau, nid yw'r costau yn cynnwys eitemau eithriadol, gwariant cyfalaf, llog, treth, cyfraniadau pensiwn, credydau pensiwn a thaliadau diswyddo.

O ganlyniad i fwy o eitemau'n cael eu postio a chostau is, erys cyllid Post Brenhinol yn gadarn ac mae'n debygol y bydd yn iach iawn yn y dyfodol. Dengys y siart isod berfformiad y gweithrediad post y rheolir ei brisiau yn ystod y tair blynedd diwethaf.



Cynnyrch y rheolir eu prisiau:
Elw cyn eitemau eithriadol a chredyd pensiwn

Dyma'r elw a wneir ar gynnyrch Post Brenhinol sy'n amodol ar reoli prisiau ar ôl didynnu'r holl gostau ac eithrio eitemau eithriadol a thaliadau diswyddo ond heb gynnwys y credyd pensiwn. Nid ydynt wedi'u haddasu i ddidynnu effeithiau chwyddiant.

Trwyddedu

Eleni datblygodd a chyflwynodd Postcomm y trwyddedau hir dymor cyntaf er mwyn i weithredwyr post gystadlu â Post Brenhinol.

Yn wahanol i'r trwyddedau interim a gyhoeddwyd hyd yma ar gyfer cynlluniau post peilot, sy'n weithredol am isafswm cyfnod o 12 mis, mae'r drwydded safonol newydd, a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2003, ond yn weithredol am isafswm o saith mlynedd.

Mae telerau ac amodau'r drwydded safonol yn cynnwys gofyniad i bob gweithredwr post ddiogelu'r post, pennu eu safonau gwasanaeth eu hunain a chyflwyno adroddiad arnynt ddwywaith y flwyddyn i Postcomm ac i Postwatch, y corff gwarchod defnyddwyr. Mae'r drwydded hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr sefydlu gwarant a fyddai'n sicrhau yr ymdrinnir yn briodol ag unrhyw bost nas dosbarthwyd os byddent yn mynd allan o fusnes. Yn unol â dyletswydd gwasanaeth cyffredinol a pholisi cystadleuaeth Postcomm, mae'r drwydded safonol yn caniatáu i lythyrau gael eu cludo mewn modd crynswth, ar sail cydgyfnerthu, a rhai gweithgareddau eraill a ddiffinnir.

Cyhoeddwyd y trwyddedau hir dymor cyntaf ar 23 Rhagfyr 2002 i Hays Commercial Services Ltd a TPG Post UK Ltd, is-gwmni cwmni post yr Iseldiroedd yn y DU. Cynhaliodd Postcomm hefyd ymgynghoriad ar gyhoeddi trwydded safonol i Express Ltd, a oedd yn bwriadu defnyddio ei fflyd dosbarthu llaeth i ddosbarthu post busnes. Dyfarnwyd y drwydded hon ym mis Ebrill 2003.

Hefyd ar 23 Rhagfyr, ychwanegodd Postcomm wasanaeth newydd - gwasanaethau olrhain post busnes-i-fusnes - i'r drwydded safonol. Mae'r gwasanaethau post arbenigol hyn yn darparu gwarant dosbarthu dros nos ar gyfer gohebiaeth fusnes, prosesau ar gyfer dilyn hynt ac olrhain eitemau unigol a chadarnhau dosbarthiad. Mae ychwanegu'r gwasanaeth hwn yn galluogi deiliaid trwyddedau i gynnig amrywiaeth ehangach o wasanaethau busnes-i-fusnes wedi'u teilwra ar gyfer busnesau penodol.

Cyhoeddodd Postcomm saith trwydded interim yn ystod y flwyddyn; addasodd nifer o drwyddedau hefyd er mwyn galluogi cystadleuwyr i ehangu eu gweithgareddau trwyddedig mewn achos o argyfwng, trychineb naturiol neu weithredu diwydiannol gan staff Post Brenhinol.

Mae rhestr o'r trwyddedau a gyflwynwyd yn dechrau ar dudalen 33.

Eithriadau i'r gwasanaeth cyffredinol

Y gwasanaeth post cyffredinol sef un casgliad ac un dosbarthiad bob diwrnod yn ystod yr wythnos am bris stamp unffurf fforddiadwy yw asgwrn cefn gwasanaeth post y DU. Mae dyletswydd gyfreithiol ar Post Brenhinol i ddarparu'r gwasanaeth, ac un o dasgau allweddol Postcomm yw ceisio sicrhau ei fod yn parhau i gael ei ddarparu.

Mewn rhai ardaloedd mae'n bosibl y caniateir eithriadau i'r gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys cyfeiriadau lle y mae'n rhaid croesi tir anodd neu beryglus i gael mynediad (eithriad iechyd a diogelwch) neu ar ynysoedd lle nad oes gwasanaeth fferi dyddiol (eithriad anhawster mynediad).

Mae tua 3,000 o eithriadau hir dymor ledled y DU - tua 1 o bob 9,000 o'r 27 miliwn o gyfeiriadau post yn y DU.

Yn y gorffennol, cytunwyd yn lleol ar unrhyw eithriadau i'r gwasanaeth cyffredinol rhwng swyddfa ddosbarthu Post Brenhinol a'r cwsmer. Nododd ymchwil gan Postwatch, y corff gwarchod defnyddwyr, fod y rhan fwyaf o bobl yn fodlon â'r trefniant. Ond roedd rhai enghreifftiau lle nad oedd y rheswm gwreiddiol dros yr eithriad - fel presenoldeb ci peryglus - bellach yn berthnasol, ac roedd Postcomm yn poeni nad oedd unrhyw reolau penodedig ar gyfer penderfynu ar eithriadau.

Ar ôl ymgynghori, ar 31 Ionawr 2003 pennodd Postcomm reolau cliriach ar gyfer eithriadau i'r gwasanaethau cyffredinol. Yn eu plith roedd:

- Diffiniad mwy pendant o gyfeiriadau anghysbell lle na ddisgwylir i Post Brenhinol ddosbarthu i'r drws bob dydd

- Cynnig trefniadau dosbarthu amgen gan alluogi gwasanaeth cyffredinol i gael ei ddarparu i bwyntiau dosbarthu cymeradwy

- Cyfleoedd i gwsmeriaid wneud cais am adolygiad ac i apelio yn erbyn penderfyniadau Post Brenhinol ar eithriadau.

O dan y polisi eithriadau newydd, pennodd Postcomm 'reol 15 munud' newydd i ddiffinio p'un a ddylai cyfeiriad ar hyd llwybr mynediad preifat mewn cyflwr gwael dderbyn dosbarthiadau post dyddiol i'r drws. Erbyn hyn os bydd yn cymryd mwy na 15 munud i'r postmon deithio o'r ffordd gyhoeddus i gyrraedd y cyfeiriad ac yn ôl, ar droed neu mewn cerbyd, ni fydd yn rhaid i Post Brenhinol ddosbarthu i'r eiddo, ond bydd yn cytuno ar bwynt dosbarthu amgen gyda'r preswylydd - fel blwch ar ochr y ffordd.

…gofynnwyd i Postcomm ymgynghori a rhoi cyngor ar y ffordd orau i weithredu darpariaethau'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Post Ewropeaidd.

Y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Post Ewropeaidd

Ym mis Mai 2002, mabwysiadodd yr Undeb Ewropeaidd Gyfarwyddeb Gwasanaethau Post 2002/39/EC. Roedd y Gyfarwyddeb hon yn diwygio Cyfarwyddeb 97/67/EC mewn perthynas â chyflwyno mwy o gystadleuaeth ym maes gwasanaethau post Cymunedol. Roedd yn ofynnol i Aelod-Wladwriaethau weithredu'r Gyfarwyddeb erbyn 1 Ionawr 2003.

Roedd y Gyfarwyddeb newydd yn lleihau'r rhan o'r farchnad bost y gellid ei neilltuo i weithredwyr monopoli cenedlaethol o 350 gram i bost sy'n pwyso llai na 100g o 1 Ionawr 2003 a 50g o 1 Ionawr 2006.

Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant sy'n gyfrifol am weithredu'r Gyfarwyddeb newydd yn y DU, gan ei bod yn ei gwneud yn ofynnol addasu deddfwriaeth yn Neddf Gwasanaethau Post 2000, ond gan fod y Gyfarwyddeb yn effeithio ar faes rheoleiddio Postcomm, gofynnwyd i Postcomm ymgynghori a rhoi cyngor ar y ffordd orau i weithredu darpariaethau'r Gyfarwyddeb.

Yn dilyn ymgynghori, argymhellodd Postcomm y dylid cadw trwyddedu yn y DU ar ei derfyn presennol sef 350 gram, ond y byddai trwyddedau dros 100g ar ôl 1 Ionawr 2003, a 50g ar ôl 1 Ionawr 2006 yn cael eu dyfarnu gan Postcomm heb unrhyw gyfyngiad ar natur y gwasanaethau a ddarperir.

Nododd Postcomm mai post hyd at 350g yw'r farchnad llythyrau gyfan, fwy neu lai. Byddai cadw trwyddedu ar y lefel hon yn golygu y byddai cwmnïau post yn amodol ar gyfres gyffredin o ofynion rheoleiddiol a fyddai'n cael eu cymhwyso'n deg ac yn gyson i fwy neu lai bob cyfranogwr yn y farchnad. Dyma fyddai'r ffordd orau i ddiogelu'r gwasanaeth cyffredinol a darparu budd i ddefnyddwyr gwasanaethau post.

Derbyniodd yr Adran Masnach a Diwydiant argymhellion Postcomm a'u rhoi ar waith. Gwnaeth Postcomm ddau addasiad i drwydded Post Brenhinol er mwyn gweithredu dau bwynt manwl yn y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Post ddiwygiedig.

Rhwydwaith Swyddfa'r Post

Cyflwynwyd ail adroddiad blynyddol Postcomm ar y rhwydwaith - *Access to Post Office Services - Time to Act* i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant ym mis Gorffennaf 2002 ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Medi. Yn yr adroddiad, pwysleisiodd Postcomm yr angen i weithredu ar frys er mwyn sicrhau bod gan y rhwydwaith Swyddfeydd Post ddyfodol cynaliadwy. Amlygwyd gennym yr angen i weithredu'n bendant mewn pedwar maes allweddol:

- cyhoeddi cymorth ariannol i Swyddfeydd Post gwledig
- uno rhai Swyddfeydd Post trefol a gwella'r rheini sy'n weddill
- gweithredu cynllun i gynorthwyo Swyddfeydd Post mewn ardaloedd trefol difreintiedig
- sicrhau bod Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post a chyfrifon banc sylfaenol ar gael mewn Swyddfeydd Post erbyn mis Ebrill 2003, pan ddechreuodd y drefn o newid i dalu budd-daliadau nawdd cymdeithasol a phensiynau yn uniongyrchol i gyfrifon banc.

Nodwyd mewn gwirionedd na allai gwaith Postcomm ar weledigaeth hir dymor gyffredin ar gyfer rhwydwaith Swyddfa'r Post ddechrau tan y byddai'r mentrau hyn wedi datblygu ymhellach. Maent wedi gwneud hynny erbyn hyn. Cytunwyd ar gymorth ariannol o £450m dros dair blynedd, mae'r rhaglen 'ailddyfeisio trefol' yn mynd rhagddi, mae cynlluniau ar gyfer Swyddfeydd Post mewn ardaloedd trefol difreintiedig ar waith ledled y DU a gall pobl godi arian dros gownter Swyddfa'r Post gan ddefnyddio cyfrif cerdyn neu sawl math o gyfrif banc.

Ailbwysleisiodd yr adroddiad a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2002 neges yr adroddiad a gyflwynwyd yn 2001, sef mai hygyrchedd gwasanaethau Swyddfa'r Post sy'n bwysig yn hytrach na chadw nifer benodol o ganghennau Swyddfa'r Post. Mae'r gwasanaethau hyn yn arbennig o bwysig i bobl dros 65 oed, pobl anabl, gofalwyr, pobl ar incwm isel ac, mewn ardaloedd gwledig, i'r rheini nad oes ganddynt fynediad i gar. Y gwasanaethau allweddol a ddarperir i'r grwpiau diamddiffyn hyn yw postio, talu biliau a chasglu eu pensiynau a'u budd-daliadau mewn arian parod.

Argymhellodd Postcomm y dylai Swyddfa'r Post Cyf barhau i ddatblygu'r cysyniadau o ganghennau lloeren a changhennau symudol ac ymchwilio i ffyrdd eraill posibl o ddarparu gwasanaethau Swyddfa'r Post i gymunedau bach lle y caiff canghennau Swyddfa'r Post eu cau ond bod angen gwasanaethau ar grwpiau diamddiffyn o hyd. Gofynnodd adroddiad Postcomm hefyd p'un a yw'n synhwyrol, o dan y gofyniad a osodwyd ar Swyddfa'r Post Cyf gan y llywodraeth i 'osgoi cau swyddfeydd post lle bynnag y bo'n bosibl', i weithio'n ddiwyd i ailagor holl ganghennau gwledig Swyddfa'r Post sydd wedi cau - yn arbennig mewn achosion lle nad oes siop ynghlwm a lle nad oes ganddynt lawer o gwsmeriaid.

Ar ddiwedd 2002, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol i Postcomm am gyngor ar opsiynau ar gyfer y rhwydwaith gwledig ar ôl 2006. Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad yn ystod haf 2003. I'n helpu i lunio'r cyngor hwn, rydym wedi comisiynu astudiaethau gan ymgynghorwyr ar dueddiadau defnyddwyr a busnesau yn y dyfodol ac ar y gwerth a rydd pobl ar gael Swyddfa Bost leol yn hytrach na ffurf arall ar ddarparu gwasanaeth fel gwasanaeth lloeren neu symudol, neu Swyddfa'r Post mewn pentref neu dref gyfagos.

Cydberthnasau â rhanddeiliaid

Atebolrwydd

Credwn fod angen i ni wneud popeth posibl i egluro ein penderfyniadau, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, i'r Senedd ac i ddefnyddwyr gwasanaethau post. Eglurwn ein penderfyniadau fel a ganlyn:

- drwy ein rhaglen helaeth o ymgynghoriadau
- drwy ein dogfennau penderfyniad ffurfiol, sy'n egluro sut yr ystyriwyd yr holl bwyntiau allweddol a godwyd mewn ymgynghoriadau
- yn ein blaen raglenni gwaith (A.61 Deddf Gwasanaethau Post 2000)
- yn ein hadroddiadau blynyddol (A.45 Deddf Gwasanaethau Post 2000)

- yn ein hymddangosiadau ger bron pwyllgorau Cyfrifon Cyhoeddus (PAC) a Masnach a Diwydiant (TISC)

    - Mawrth 2002: gwrandawiad PAC ar Adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol *Opening the Post*

    - Ebrill 2002: gwrandawiad TISC ar gynigion Postcomm i agor y farchnad

    - Chwefror 2003: gwrandawiad TISC ar gynigion Postcomm ar reoleiddio prisiau ac ansawdd gwasanaeth Post Brenhinol

- drwy gyfarfodydd, trafodaethau a gohebiaeth gyda Seneddwyr, nid yn unig yn San Steffan ond yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon

- mewn cyfarfodydd a thrafodaethau rheolaidd gyda defnyddwyr gwasanaethau post a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli, sefydliadau defnyddwyr, cwmnïau preifat, rheolwyr Post Brenhinol, a chynrychiolwyr undebau llafur

- drwy ein gwefan

- drwy hysbysiadau i'r wasg, ymddangosiadau ar y teledu a'r radio, a chyfweliadau â newyddiadurwyr, ac

- mewn cyfarfodydd cyhoeddus ledled y DU.

Mae'r paragraffau canlynol yn darparu crynodeb o'n cydberthnasau sy'n datblygu gyda rhanddeiliaid penodol.

Y Llywodraeth

Yn anochel ceir cydberthynas drionglog anodd rhwng y llywodraeth (fel perchennog Post Brenhinol), Post Brenhinol ei hun a Postcomm. Daeth y gydberthynas hon o dan bwysau sylweddol yn ystod 2002 wrth i Post Brenhinol ofni y byddai ein polisïau yn atal eu llif arian parod. O ganlyniad, rhoddodd y cwmni bwysau ar weinidogion *naill ai* i'n hatal *neu* i ddarparu symiau mawr o arian. Dylid canmol y gweinidogion oherwydd er iddynt gytuno i ariannu colledion Grŵp ehangach Post Brenhinol - gweler isod am fwy o fanylion - parhaodd eu parch tuag at ein hannibyniaeth a chytunasant y dylai eu pryderon dealladwy bob amser gael eu cyfleu mewn ffyrdd y gallem eu cydnabod yn ein dogfennau penderfyniad a/neu ar ein gwefan.

Grwpiau rhanddeiliaid

Mae gan Postcomm gysylltiadau trafod sefydledig gyda chyrff defnyddwyr anllywodraethol, y Grŵp Ymgynghorol i Weithredwyr, cymdeithasau masnach, elusennau a chyrff eraill sy'n cynrychioli buddiannau cwsmeriaid a buddiannau gweithredwyr eraill. Rydym hefyd yn darparu gwybodaeth i gyrff llywodraethol sydd â diddordeb (cenedlaethol, rhanbarthol a lleol), ac yn cynnal seminarau i randdeiliaid a chyfarfodydd cyhoeddus ledled y DU, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i glywed barn cymaint o randdeiliaid â phosibl. Serch hynny, mae pwysau gwaith wedi golygu ein bod wedi treulio llai o amser yn trafod â grwpiau unigol o randdeiliaid nag y byddem wedi ei hoffi. Ein bwriad eleni yw adolygu a mireinio ein prosesau ymgynghori, a sicrhau ein bod yn cynnal trafodaethau rheolaidd gydag amrywiaeth ehangach o grwpiau â diddordeb, gan gynnwys cyhoeddi newyddlen i randdeiliaid.

Yn yr un modd, rydym yn parhau i sicrhau bod pob penderfyniad allweddol a dogfennau ategol ar gael ar ein gwefan, ond rydym yn ymwybodol ei bod wedi dod yn anodd i bobl ddod o hyd i'r wybodaeth y maent am ei gweld. Bwriadwn wella ei hygyrchedd yn ystod y flwyddyn nesaf.

Postwatch

Mae gan Postcomm a Postwatch – Cyngor Defnyddwyr y Gwasanaethau Post – ddyletswydd i hybu a diogelu buddiannau defnyddwyr y gwasanaethau post. Mae'r ddau gorff yn cydnabod ei bod yn hanfodol iddynt gydweithio'n effeithiol a pharchu rolau, cyfrifoldebau a chyfraniadau ei gilydd yn llawn er mwyn gallu cyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer cwsmeriaid. Yn anffodus, ni lwyddodd hyn i atal problemau sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a achoswyd yn bennaf gan y ffaith y bu i Postcomm annog Post Brenhinol i gael cytundeb Postwatch am gynnydd mewn prisiau yn y gobaith y byddai hyn yn symleiddio ein harchwiliad dilynol o'r mater. Gweithredodd Postwatch a Post Brenhinol yn y ffordd yr oeddem wedi'i gobeithio a nododd Postwatch y gallent fyw gyda chynnydd o tua 3% mewn prisiau yn gyfnewid am welliannau yn ansawdd gwasanaeth a threfniadau iawndal Post Brenhinol. Yn dilyn hynny, bu i ni fabwysiadu sawl elfen o'r 'fargen' hon ond nid oedd yn bosibl i ni dderbyn elfennau eraill. O ganlyniad, derbyniodd ein hymagwedd a'n prosesau feirniadaeth gan y ddau sefydliad, er o safbwyntiau cwbl wahanol.

Rydym wedi dysgu i fod yn fwy gofalus ac eglur wrth ddelio â'r ddau sefydliad, yn arbennig er mwyn osgoi rhoi'r argraff i'r naill ochr eu bod yn rhannu rhywfaint o'n pŵer i wneud penderfyniadau. Rydym hefyd yn ymdrechu'n galed i ailfeithrin y gydberthynas â Postwatch, ac ymddengys fod yr ymdrechion hyn yn dwyn ffrwyth.

Post Brenhinol

Roeddem yn falch o weld tîm rheoli newydd eithriadol yn cael ei benodi gan Post Brenhinol. Fodd bynnag, yn anochel cododd rhai problemau gan nad oedd pob aelod o'r tîm newydd yn meddu ar brofiad eu rhagflaenwyr o'r busnes post ac o weithio o fewn cyfyngiadau perchenogaeth y llywodraeth a rheoliadau economaidd annibynnol. Gwaethygwyd y problemau hyn gan benderfyniad dealladwy'r tîm newydd, wrth iddynt wynebu colledion enfawr gan Parcelforce a Swyddfa'r Post Cyf, i geisio unioni rhan o'r colledion drwy gyhoeddi cynnydd brys mewn prisiau ar gyfer y busnes postio. Yn anffodus dibynnwyd yn ormodol ar ganlyniad eu trafodaethau gyda Postwatch (gweler uchod) ac ar fodelau economaidd a ragwelodd ostyngiad cyflym yn eu cyfran o'r farchnad yn dilyn cyflwyno cystadleuaeth.

Ni chawsom ein darbwyllo gan sylwadau Post Brenhinol ac fel y digwyddodd:

- parhaodd y busnes post i wneud elw
- cadarnhaodd y cwmni y gallai gynyddu ei elw tua £400m yf o ganlyniad i well effeithlonrwydd
- parhaodd nifer yr eitemau post yn gyson, ac
- nid oedd Post Brenhinol yn colli cyfran arwyddocaol o'r farchnad i gystadleuwyr.

Mewn ymateb i'n cwestiynau, cynhaliodd y cwmni ymgyrch wleidyddol ac ymgyrch yn y cyfryngau gan ymosod ar 'wreck-u-lation', tra'n methu â chydnabod bod Post Brenhinol (o'i ystyried ar wahân i'r grŵp ehangach) yn fusnes sy'n gyffredinol iach. A nododd y cwmni mai 'triog rheoleiddiol' oedd yr oedi a achoswyd gan ymdrechion y cwmni ei hun i'n darbwyllo bod Post Brenhinol yn wynebu argyfwng - a hithau'n gwbl amlwg nad oedd hynny'n wir - a'n penderfyniad i wrthod cytuno ar newidiadau andwyol i'r portffolio cynnyrch yn gyflym.

Ond mae'r rheolaeth prisiau bellach ar ben, ac mae Grŵp y Post Brenhinol nid yn unig yn llwyddo i fynd i'r afael â'r problemau yn Parcelforce a Swyddfa'r Post Cyf yn llwyddiannus ond yn dangos arwyddion calonogol ei fod yn rhoi mwy o sylw i anghenion ei gwsmeriaid post, sydd wrth gwrs eisoes wedi elwa ar brisiau gwirioneddol is a gwell dibynadwyedd. Croesawn hyn ac rydym wedi gofyn i'r cwmni roi ystyriaeth ddifrifol i'r ffordd y gallai weithio yn awr gan ystyried y rheoliadau er mwyn gwella ei bortffolio cynnyrch, gwella ansawdd gwasanaeth ymhellach, a gweithio'n adeiladol gyda gweithredwyr eraill y mae angen mynediad arnynt i rwydwaith dosbarthu'r cwmni. Rydym yn aros i weld p'un a yw bwrdd Post Brenhinol yn barod i ymateb i'r her hon. Ond nid ydynt hwy na ninnau am weld problemau'r llynedd yn ailymddangos ac rydym yn gymharol obeithiol y bydd y gydberthynas yn gwella.

Swyddfa Masnachu Teg

Mae potensial i rolau Postcomm a'r Swyddfa Masnachu Teg (OFT) wrth orfodi arferion gwrth-gystadleuol orgyffwrdd. Mae'r OFT yn gorfodi Deddf Cystadleuaeth 1998 sy'n gwahardd ymddygiad gwrth-gystadleuol yn y DU, a darpariaethau monopoli Deddf Masnachu Teg 1973. Mae Postcomm yn gyfrifol am orfodi trwydded Post Brenhinol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cwmni beidio ag ymddwyn mewn ffordd wrth-gystadleuol.

Er mwyn egluro priod rolau'r ddwy swyddfa wrth ymchwilio i achosion o ymddygiad gwrth-gystadleuol, ac er mwyn atal dyblygu ymdrech, cyhoeddodd Postcomm ym mis Hydref 2002 Femorandwm o Ddealltwriaeth drafft i ymgynghori arno. Byddai achwynwyr yn gallu cwyno i'r naill gorff neu'r ddau gorff, a byddai penderfyniad yn cael ei wneud ar ba sefydliad fyddai'n ymdrin â'r mater. Disgwylir y bydd fersiwn terfynol y Memorandwm yn barod ym mis Mehefin 2003.

Rheoleiddwyr economaidd eraill

Parhaodd Postcomm i weithio'n agos gyda rheoleiddwyr economaidd eraill er mwyn rhannu profiad a syniadau mewn perthynas ag amrywiaeth o faterion, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â phennu rheolaethau pris fel cost cyfalaf, cyfathrebu effeithiol â rhanddeiliaid, delio â'r broses o newid i farchnad gystadleuol ac arfer gorau wrth gyflwyno gwasanaethau. Mae cynrychiolwyr Postcomm yn mynychu cyfarfodydd gweithgor cydweithredu OFT a Grŵp Cyfathrebu'r Rheoleiddwyr.

Gweithrediadau

Recriwtio - rheoli gwybodaeth - rheoli pobl – adolygiad ariannol.

Recriwtio

Mae Postcomm yn recriwtio ar sail cystadleuaeth deg ac agored ac yn dethol yn ôl haeddiant, yn unol â'r Cod Recriwtio a bennwyd gan Gomisiynwyr y Gwasanaeth Sifil - a chynhelir gwiriadau mewnol er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r cod hwn. Yn ystod y flwyddyn, bu Postcomm yn destun archwiliad annibynnol llwyddiannus ar ran Swyddfa Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil.

Yn ystod 2002-03, recriwtiodd Postcomm bum aelod o staff. Rhwng mis Ebrill 2002 a mis Mawrth 2003 ni ddefnyddiodd Postcomm unrhyw rai o'r eithriadau i gystadleuaeth deg ac agored a ganiateir o dan y Cod Recriwtio.

Mae Postcomm yn adran fach iawn o'r llywodraeth ac mae cynhyrchu data ystadegol ar faterion sy'n ymwneud â chyfle cyfartal mewn perthynas â recriwtio yn anodd iawn i'w ddiffinio heb dorri cyfrinachedd. Fodd bynnag, allan o'r pump o bobl a recriwtiwyd, roedd 80% ohonynt yn ddynion a benodwyd i swyddi rheolwyr, a chofnododd 20% ohonynt anabledd. Roedd ugain y cant o'r rhai a recriwtiwyd yn ferched a benodwyd i swyddi gweinyddol/clerigol. Nid oedd unrhyw un o'r ymgeiswyr o darddiad ethnig.

Ar 31 Mawrth, roedd Postcomm yn cyflogi 40 o bobl. Dengys y tabl canlynol ddadansoddiad yn ôl rhyw, ethnigrwydd ac anabledd.

	Dynion	Merched	Lleiafrifoedd Ethnig	Anabledd
Prif weithredwr a chyfarwyddwyr	4	3	0	0
Staff arall	19	14	4	3

Rheoli gwybodaeth

Yn ystod 2002-03 bu Postcomm wrthi'n datblygu strategaeth i feithrin gwybodaeth gorfforaethol drwy ddatblygu systemau ac adnoddau newydd. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn gwella mynediad i wybodaeth berthnasol a dibynadwy ac yn cynyddu ansawdd ac effeithlonrwydd y broses o wneud penderfyniadau.

Rheoli pobl

Mae Postcomm yn ymrwymedig i weithredu Rhaglen Diwygio'r Gwasanaeth Sifil ac i sefydlu polisïau adnoddau dynol a systemau tâl modern ac arloesol. Yn 2002-03 parhaodd Postcomm i ddatblygu systemau adnoddau dynol yn seiliedig ar egwyddorion diwygio'r Gwasanaeth Sifil. Rhoddir blaenoriaeth uchel i ddysgu a datblygu ac mae gweithdrefnau sefydlu ar gyfer staff newydd yn cynnwys profiad o ddosbarthu a chasglu post gyda Post Brenhinol yn ogystal ag ymweld â gweithredwyr post eraill a chwsmeriaid pwysig. Mae Postcomm yn ceisio denu staff o amrywiol gefndiroedd a sicrhau y cânt hyfforddiant priodol a mynediad i'r wybodaeth briodol i gyflawni eu hamcanion busnes.

Cyflogau

Rhydd y tabl canlynol fanylion am nifer yr Uwch Weision Sifil ym mhob band tâl ar gyfer 2002-03. Mae'n cynnwys bonysau arfaethedig ar gyfer 2002-03.

Band tâl	Nifer y staff yn y band
£30,000-£34,999	1*
£55,000-£59,999	1*
£60,000-£64,999	2
£75,000-£79,999	1
£85,000-£89,999	1
£100,000-£104,999	1

* Bu dau aelod o staff yn swydd y cyfarwyddwr rheoleiddio yn ystod y flwyddyn. Felly dim ond ar gyfer rhan o'r flwyddyn y mae'r cyflogau a ddatgelir.

Defnyddio ffynonellau allanol

Parhaodd Postcomm i anfon gwaith allan at gyflenwyr eraill pryd bynnag y bo'n bosibl a chynhaliodd nifer fach o staff gweithrediadau mewn Adnoddau Dynol, Cyfreithiol, Cyllid, TG a Rheoli Cyfleusterau drwy gydol y flwyddyn.

Adolygiad ariannol

Mae blwyddyn ariannol Postcomm yn rhedeg o 1 Ebrill i 31 Mawrth. Yn 2002-03 roedd gan Postcomm gyfanswm cyllideb adnoddau o £5,850k i ddarparu ar gyfer costau rhedeg a chyllideb cyfalaf adnoddau o £150k. Nododd ein rhagolygon cychwynnol nad oedd angen i ni wneud cais i'r Senedd am adnoddau ychwanegol. Aeth Postcomm i wariant ychwanegol ar gyngor cyfreithiol a gwasanaethau ymgynghori cyffredinol mewn ymateb i heriau gan Post Brenhinol i'n rheolaeth prisiau gyntaf a'r cais cyntaf am benderfyniad mynediad. Cymerwyd camau gennym i gwtogi ar wariant er mwyn osgoi pleidlais ormodol gan ein bod wedi methu'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno amcangyfrif gwanwyn ategol i'r Senedd. Fodd bynnag, o ganlyniad i dderbyn cais annisgwyl am drethi yn cwmpasu'r cyfnod ers i ni feddiannu Hercules House hyd heddiw aeth Postcomm y tu hwnt i'r gyllideb a bennwyd gan y Senedd o £67k am na wnaed cais gennym am adnoddau ychwanegol. Gallai hyn arwain at ail amod yn olynol gan ein harchwilydd allanol, y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Os yn berthnasol, cynhwysir manylion llawn amod y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol a'i adroddiad yng nghyfrifon cyhoeddedig Postcomm, y bwriedir eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

Ariennir Postcomm yn bennaf drwy ffioedd trwydded a delir gan Post Brenhinol, ond wrth i gystadleuaeth ymsefydlu bydd cwmnïau eraill hefyd yn cyfrannu drwy eu ffioedd trwydded. Ceir crynodeb o hanes ein gwariant a'r alldro a ragwelir ar hyn o bryd ar gyfer 2002-03 (mae'r ffigurau yn amodol i'w harchwilio) yn y tabl.

Mae ein costau staff wedi cynyddu yn 2002-03 wrth i ni symud tuag at y nifer llawn, gyda 40 aelod o staff ar 31 Mawrth 2003. Mae'r rhagolygon ar gyfer 2003-04 yn uwch gan ein bod wedi darparu ar gyfer 'bancio dwbl' mewn perthynas â staff y disgwylir iddynt gwblhau eu cyfnod ar fenthyg a dychwelyd i'w rhiant adrannau. Bydd hyn yn galluogi Postcomm i drosglwyddo gwybodaeth yr aelodau hynny o staff y disgwylir iddynt adael i'w holynwyr, sy'n angenrheidiol o fewn sefydliad mor fach.

Mae'r gostyngiad o ran gwariant ar wasanaethau ymgynghori yn 2002-03 yn adlewyrchu'r ffaith y cwblhawyd y rhan fwyaf o'r gwaith ar gyflwyno cystadleuaeth yn ystod 2001-02. Mae'r alldro uwch a ragwelir ar gyfer 2003-04 yn adlewyrchu'r gwaith y mae Postcomm am ei gyflawni (ceir manylion llawn yn y Flaen Raglen Waith ar ein gwefan). Cyrhaeddodd ein gwariant cyfalaf uchafbwynt yn ystod 2001-02 wrth i'r gwelliannau i'n swyddfeydd yn Hercules House gael eu cwblhau. Mae'r alldro a ragwelir ar gyfer 2002-03 yn adlewyrchu gwariant yn bennaf ar uwchraddio caledwedd a meddalwedd.

	2001-02 Alldro gwirioneddol £000	2002-03 Alldro a ragwelir £000	2003-04 Alldro a ragwelir £000
Costau staff	1,881	2,233	2,778
Costau rhedeg eraill	1,162	1,216	1,305
Ymgynghorwyr, cyfreithwyr allanol ac ati	2,268	2,083	2,390
Is-gyfanswm	5,311	5,532	6,473
Dibrisiad	331	350	435
Cost cyfalaf	29	36	35
Cyfanswm	5,671	5,918	6,943
Gwariant cyfalaf	752	91	540

Mae adnoddau a neilltuwyd i feysydd gweithgaredd gwahanol yn Postcomm fel a ganlyn:

	£
Ysgrifenyddiaeth	352,425
Cyfreithiol	431,466
Cystadleuaeth a Rheoleiddio	2,350,782
Cyfathrebu	316,968
Rhwydwaith	278,387
Gweithrediadau	1,765,924
Cwsmeriaid a Gweithredwyr	422,472
	5,918,424



Trwyddedau a ddyfarnwyd gan Postcomm

Hyd at 31 Mawrth 2003

Dyfarnwyd trwyddedau gan Postcomm i'r sefydliadau canlynol yn ystod cyfnod yr adroddiad. Mae'r trwyddedau interim am isafswm o ddeuddeg mis. Mae'r trwyddedau hir dymor am isafswm o saith mlynedd.

Trwyddedau hir dymor a gyhoeddwyd eleni

Cwmni	Cyhoeddwyd	Disgrifiad
Hays Commercial Services Limited	23.12.02	Post crynswth, cydgyfnerthu, cyfnewid dogfennau, gwell proses ar gyfer olrhain post busnes-i-fusnes
TPG Post UK Limited	23.12.02	Post crynswth, cydgyfnerthu, cyfnewid dogfennau, gwell proses ar gyfer olrhain post busnes-i-fusnes

Trwyddedau interim a gyhoeddwyd eleni

Cwmni	Cyhoeddwyd	Disgrifiad
Datarun	22.05.02	Llythyrau sy'n ymwneud â chyhoeddiadau y mae'n eu dosbarthu yn Birmingham, Bryste, Caeredin, Glasgow, Leeds, Llundain, Manceinion a Warrington
Deutsche Post Global Mail (UK) Limited	28.08.02	Gwasanaethau post i grŵp bach o gleientiaid newydd a chleientiaid presennol gwasanaethau post trawsffiniol y cwmni mewn gwahanol wladwriaethau o fewn yr UE
Express Limited	25.07.02	Treialu system o ddosbarthu pecynnau a llythyrau i ddeiliaid cartrefi gan ddefnyddio rhwydwaith dosbarthu llaeth y cwmni
London Underground Limited	22.05.02	Cludo llythyrau rhwng Grŵp Trafnidiaeth Rhanbarthol Llundain a Transport for London
Securicor Omega Express Limited	22.05.02	Gwasanaethau post mewnol ar gyfer dau gleient yn y sector bancio
Special Delivery Services Limited	25.06.02	Casglu a didoli cyfriflenni cardiau credyd a phost ategol ar gyfer rhai o'i gleientiaid presennol a'u trosglwyddo i Post Brenhinol i'w dosbarthu i'w cyrchfan
Speedmail International Limited	25.07.02	Gwasanaethau ystafell bost peilot ar gyfer busnesau, casglu post gan Post Brenhinol, ei rhag-ddidoli a'i ddosbarthu'n uniongyrchol i unigolion yn swyddfeydd cleientiaid. Bydd hefyd yn dosbarthu llythyrau sy'n ymwneud â chyhoeddiadau i godau post yn Llundain lle y mae eisoes yn dosbarthu deunydd anhrwyddedig

Trwyddedau hir dymor

Cwmni	Cyhoeddwyd	Disgrifiad
Grŵp Post Brenhinol ccc	26.03.01	Mae'r drwydded yn para am 15 mlynedd ac yn caniatáu i Post Brenhinol barhau i ddarparu gwasanaethau post ar draws y DU gyfan

Trwyddedau interim

Cwmni	Cyhoeddwyd	Disgrifiad
TNT UK Ltd	21.06.01	Dwy drwydded ar gyfer darparu gwasanaethau post i ddau fusnes gwasanaethau ariannol
UK Mail	20.11.01	Casglu post o fewn ardaloedd cod post penodedig, ei ddidoli a'i anfon i'r swyddfa Post Brenhinol berthnasol i'w ddosbarthu gan bostmyn

Cyhoeddiadau Postcomm

Ebrill 2002-Mawrth 2003

Interim licence application from SDS Dogfen ymgynghori	Ebrill 2002
Licence modifications for Hays and TNT Trwyddedau	Mai 2002
Interim licence application from Express Dairies Dogfen ymgynghori	Mai 2002
Interim licence application from Speedmail International Ltd Dogfen ymgynghori	Mai 2002
Interim licences granted to Securicor Omega Express, Datarun and London Underground Ltd Dogfennau penderfyniad	Mai 2002

Promoting effective competition in UK postal services Dogfen penderfyniad	Mai 2002
Interim licence application from Deutsche Post Dogfen ymgynghori	Gorffennaf 2002
Licences under the Postal Services Act 2000: standard conditions Dogfen ymgynghori	Gorffennaf 2002
Consignia's licence condition 1: exceptions to the universal service obligation Dogfen ymgynghori	Gorffennaf 2002
Interim licence granted to Speedmail International Ltd Dogfen penderfyniad	Gorffennaf 2002
Interim licence granted to Express Dairies Dogfen penderfyniad	Gorffennaf 2002
Interim licence application from TPG Post UK Ltd Dogfen ymgynghori	Gorffennaf 2002
Licence modification application from TNT UK Ltd Dogfen ymgynghori	Gorffennaf 2002
Modified licences granted to Hays and TNT	Gorffennaf 2002
Regulators' Fourth Annual Statement on joint working	Gorffennaf 2002
Letter to Royal Mail on licence breaches	Awst 2002
Interim licence granted to Deutsche Post Dogfen penderfyniad	Awst 2002
Licence modification application from UK Mail	Awst 2002
Implementation of the European Directive on Postal Services in the UK Dogfen ymgynghori	Medi 2002

Interim licence granted to TPG Post UK Ltd Dogfen penderfyniad	Medi 2002
Licence modification granted to TNT	Medi 2002
Access to Postal Services: Time to Act - second annual report to the DTI	Medi 2002
Review of Royal Mail plc's price and service quality regulation Dogfen ymgynghori	Hydref 2002
Review of Royal Mail plc's price and service regulation: a compensation scheme Dogfen ymgynghori	Hydref 2002
Licences under the Postal Services Act 2000: a further defined activity of tracked business-to-business services Dogfen ymgynghori	Hydref 2002
Royal Mail's 1st Class Response Service and 1st Class Postage Paid Impression Hysbysiad gorfodi	Hydref 2002
Licence modification granted to UK Mail Ltd	Hydref 2002
Memorandum of Understanding between Postcomm and the Office of Fair Trading Dogfen ymgynghori	Hydref 2002
Licences under the Postal Services Act 2000: standard conditions Dogfen penderfyniad	Tachwedd 2002
Standard licence applications from Hays, TNT UK and TPG Post UK Dogfennau ymgynghori	Tachwedd 2002
Adroddiad Blynyddol Postcomm 2001-2002	Tachwedd 2002

Ceir rhestr o holl gyhoeddiadau Postcomm hyd yn hyn ar ein gwefan www.postcomm.gov.uk

Implementation of the European Directive on Postal Services in the UK Cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant	Rhagfyr 2002
Royal Mail's 1st Class Response Service and 1st Class Postage Paid Impression Hysbysiad gorfodi	Rhagfyr 2002
Licences under the Postal Services Act 2000: a further defined activity of tracked business-to-business services Dogfen penderfyniad	Rhagfyr 2002
Standard licences granted to Hays, and TPG Post UK Dogfennau penderfyniad	Rhagfyr 2002
Royal Mail licence condition 1: exceptions to the universal service obligation Dogfen penderfyniad a chyfarwyddyd	Ionawr 2003
Review of Royal Mail Group plc's price and service quality regulation. Second price control, quality service targets and compensation - final proposals Dogfen ymgynghori	Chwefror 2003
Standard licence application from Express Ltd Dogfen ymgynghori	Mawrth 2003
Modification to Royal Mail Group plc's licence to include a new price control Diwygio trwydded	Mawrth 2003

Gofynion statudol ar gyfer cyflwyno adroddiadau

o dan Adran 45(2)
Deddf Gwasanaethau Post 2000

Arolwg cyffredinol o ddatblygiadau

- Cyfeiriwch at adroddiad y prif weithredwr

Cydymffurfio â rhwymedigaethau o dan y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Post

- Monitrodd Postcomm berfformiad Post Brenhinol mewn perthynas â'r rhwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol yn ei drwydded
- Sicrhaodd Postcomm fod Post Brenhinol yn paratoi cyfrifon rheoleiddiol sy'n bodloni rhwymedigaethau'r Gyfarwyddeb
- Gweithiodd Postcomm gyda'r Adran Masnach a Diwydiant ar gyflwyno newidiadau i Ddeddf Gwasanaethau Post 2000 er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i'r Gyfarwyddeb ar 5 Gorffennaf 2002
- Addaswyd trwydded Post Brenhinol i sicrhau gwell cydymffurfiad â'r Gyfarwyddeb

Cyflawni safonau perfformiad penodedig gan bob deiliad trwydded

- Mae gan Post Brenhinol drwydded sy'n cynnwys gofynion manwl mewn perthynas â safonau perfformiad. Yn gyffredinol gwellodd safonau gwasanaeth Post Brenhinol yn ystod y flwyddyn, ond methodd â chyrraedd y lefelau gofynnol mewn sawl cyswllt. O ganlyniad gwnaed gorchymyn terfynol yn erbyn Post Brenhinol ar 22 Rhagfyr 2002

- Nid yw deiliaid trwydded eraill yn destun gofynion perfformiad manwl

Gorchmynion terfynol a thros dro a wnaed yn ystod y flwyddyn

- Gwnaed gorchymyn terfynol yn erbyn Post Brenhinol ar 22 Rhagfyr 2002

Cosbau a osodwyd yn ystod y flwyddyn

- Ni osodwyd unrhyw gosbau ariannol yn ystod y flwyddyn

Cynnydd y projectau a ddisgrifir yn y flaen raglen waith

- Rhestrodd blaen raglen waith Postcomm a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2002 bedwar project penodol

    - Hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol rhwng gweithredwyr post - cyhoeddwyd dogfen penderfyniad ym mis Mehefin 2002

    - Pennu prisiau mynediad - cyflwynwyd cynigion drafft i Post Brenhinol ac UK Mail ym mis Hydref 2002, a pharatowyd papur ymgynghori ffurfiol i'w gyhoeddi ym mis Mai 2003

    - Rheoli prisiau Post Brenhinol - cyflwynwyd rheolaeth prisiau newydd ar 1 Ebrill 2003

    - Monitro'r broses o ddatblygu strategaeth hir dymor ar gyfer rhwydwaith Swyddfa'r Post mewn cymunedau gwledig a threfol difreintiedig a'i datblygu. Cyflwynwyd adroddiad, *Access to Post Office Services - Time to Act*, i'r Ysgrifennydd Gwladol ym mis Gorffennaf 2002

Adroddiadau ar faterion eraill fel sy'n ofynnol gan yr Ysgrifennydd Gwladol

- Roedd adroddiad arall ar rwydwaith Swyddfa'r Post, yr oedd yn ofynnol ei gyflwyno ym mis Gorffennaf 2003, wrthi'n cael ei baratoi yn ystod y flwyddyn

Cyflwyno adroddiadau yn unol â pharagraff 17.5 y Canllawiau a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 43 Deddf Gwasanaethau Post 2000

Perfformiad mewn perthynas ag agweddau cymdeithasol ac amgylcheddol gwaith Postcomm. Cyfeiriwch yn benodol at yr adrannau o'r adroddiad hwn sy'n ymdrin â:

- Rhwymedigaethau cyflwyno'r gwasanaeth cyffredinol - sicrhau y caiff post ei ddosbarthu i bob ardal

- Rheolaeth prisiau Post Brenhinol - cadw'r gwasanaeth cyffredinol yn fforddiadwy ac annog Post Brenhinol i fod yn effeithlon, sy'n lleihau'r effaith ar yr amgylchedd

- Y cyngor a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ddyfodol rhwydwaith Swyddfa'r Post

Darparu cyngor a gwybodaeth glir a hygyrch i gwsmeriaid ar ei waith

- Postwatch sy'n bennaf gyfrifol am ddarparu cyngor i gwsmeriaid

- Mae Postcomm yn ymgynghori'n eang, gan ddilyn canllawiau Swyddfa'r Cabinet; am fanylion gweler y rhestr cyhoeddiadau ar dudalen 36 yr adroddiad hwn

Sefyllfa cwsmeriaid diamddiffyn

- Ni fu unrhyw newid yn yr hyn a ddarperir gan Post Brenhinol o ran gwasanaethau am ddim i bobl ddall, fel sy'n ofynnol gan ei drwydded

- Ni fu unrhyw newid i ofynion y drwydded sy'n pennu safonau ar gyfer agosrwydd i bwyntiau mynediad ar gyfer rhwydwaith Post Brenhinol.